

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 14 MEHEFIN 2017, ym MedRus Mawr, Penbryn.

Yn bresennol: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (tan gofnod 77); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Judy Broadly-Preston, Cyfarwyddwr ADP; (o gofnod 77); Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); Dr Gordon Allison (o gofnod 70); Dr Guy Baron; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Anwen Jones; Yr Athro Rhys Jones; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Dr Ola Olusanya; Dr Rachel Rahman; Yr Athro Malcolm Thomas; Mr Tim Davies; Ms Louise Jagger; Ms Lauren Marks, Llywydd UMAber;

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SAACH); Yr Athro Richard Beardsworth; a Ms Emma Beenham, Darpar-Swyddog Materion Academaidd UMAber.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; Dr David Dowell; Yr Athro Andrew Evans; Dr Jenny Mathers; Mr Ryan Myles, Swyddog Addysg UMAber; Yr Athro Martyn Powell; Dr Simon Rodway; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); a'r Athro Reyer Zwiiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddediogion.

64. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

1. Roedd yr Athro Richard Beardsworth yn bresennol yn y cyfarfod heb bleidlais ar ran yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.
2. Croesawyd Ms Emma Beenham, Darpar-Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) i'r cyfarfod yn rhan o'r broses sefydlu.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Dr John Corton, Cynorthwydd Ymchwil Ôl-Ddoethurol yn IBERS;
2. Dr Bernard Delagneau, cyn-Ddarlithydd Marchnata yn yr Adran Economeg Amaethyddol;

3. Dorothy Evans, cyn ysgrifenyddes yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd;
4. Dr Michael Richard Lascelles Johnston, cyn Diwtor Academaidd yn IBERS;
5. Rosemary Law, cyn Swyddog gweinyddol yn yr Adran Cyfrifiadureg;
6. Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, Cyn Brif Weinidog Cymru a Chymrawd Anrhydeddus;
7. Yr Athro Vernon Morgan; Cymrawd Anrhydeddus;
8. Dr Sandra Pierre, Technegydd Cemeg Ddadansoddol a Metabolomeg, IBERS;
9. Emily Price, myfyrwraig yn y drydedd flwyddyn;
10. Yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol;
11. Jacob Pugh Thomas, cyn borthor yn Llandinam a Llanbadarn;
12. Yr Athro David Wulstan, Athro Emeritws Cerddoriaeth ac Athro er Anrhydedd yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd.

65. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

66. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 (SEN1617-066).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

67. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1617-067).

NODWYD

1. Adroddiad ar y Portffolio Academaidd (cofnod 11)

Roedd yr adroddiadau a baratowyd gan *The Knowledge Partnership* wedi eu rhoi ar Sharepoint (SEN1617-098 i SEN1617-102) er gwybodaeth. Byddai'r adroddiadau hyn yn bwydo'r penderfyniadau sydd eu hangen yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC).

2. Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

68. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw aelodau'r Senedd.

69. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1617-068).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad y manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: Swyddogion Undeb y Myfyrwyr; y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) a'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA); penodi Canghellor newydd a Chadeirydd newydd i'r Cyngor; a datblygiad cynllun strategol newydd.
2. Ers drafftio'r adroddiad cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol San Steffan. Cafodd Ben Lake ei ethol i gynrychioli Ceredigion. Ailbenodwyd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru; penodwyd y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS yn Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol; a Jo Jonson AS yn Weinidog dros Brifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi.
3. Ar gais yr Is-Ganghellor, codwyd polyn fflag ger y fynedfa i Gampws Penglais. Gan mai dyma'r tro cyntaf i'r Brifysgol gael baner o'r fath, byddai protocol yn cael ei ddatblygu i wneud yn sicr bod Prifysgol Aberystwyth yn ymateb yn briodol i ddiwyddiadau (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

70. CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1617-069).

NODWYD

1. Mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2017, cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd i'r sefydliad. Ers hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â'r tair undeb llafur a gydnabyddir i chwilio am ffyrdd i leihau costau'r Brifysgol.
2. O ganlyniad i hyn roedd yr undebau llafur wedi cyflwyno dogfen i Weithrediaeth y Brifysgol yn amlinellu dulliau ar gyfer gwneud yr arbedion angenrheidiol. Cyfarfu'r Weithrediaeth â'r undebau llafur ar 12 Mehefin 2017 i drafod y cynigion hyn ymhellach, gyda golwg ar gwblhau'r trafodaethau yn yr wythnosau nesaf.
3. Holodd yr aelodau ynglŷn ag oblygiadau adroddiadau'r Knowledge Partnership yn achos portffolio graddau anrhydedd cyfun PA. Cawsant eu sicrhau mai sail gwybodaeth yn unig fyddai'r adroddiadau yng nghyswllt y penderfyniadau sydd eu hangen yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) ac na fyddent yn llywio'r sefyllfa. Byddai'r cynlluniau gradd anrhydedd cyfun yn cael eu hadolygu gan un agwedd o'r CGC, a fyddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Datblygu a Chynllunio Academaidd.
4. Ar 09 Mehefin 2017, cadarnhawyd cyllid blwyddyn academaidd 2017-18 gan CCAUC, a byddai gostyngiad o £1.783m yn y cyfanswm a ddyfernir i

Aberystwyth. Cafodd y Brifysgol ei rhybuddio i ddisgwyl gostyngiad o'r fath, a bu hyn yn ffactor a ystyriwyd wrth baratoi'r CGC.

71. STRATEGAETH YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (COU1617-070).

NODWYD

1. Roedd y CGC a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Ebrill 2017 yn cynnwys adran ar y Strategaeth Ymchwil sydd wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer PA. Roedd hyn bellach yn cael ei datblygu'n strategaeth gyflawnach gan y Pwyllgor Ymchwil, a fyddai'n paratoi strategaeth ddrafft i'w hystyried yn yr hydref. Ond gwahoddwyd aelodau'r Senedd i roi barn ar y syniadau a oedd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

2. Argymhell i'r Pwyllgor Ymchwil y dylai'r Strategaeth Ymchwil a roddir gerbron i'w hystyried yn y pen draw amlinellu (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil)):
 1. sefydlwyd eisoes anogaeth a / neu ddisgwyliad clir y dylai'r Brifysgol sefydlu Canolfannau Ymchwil Rhyngddisgyblaethol yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol; a hynny am nad yw'r meysydd hyn wedi eu cynrychioli'n briodol mewn ceisiadau am gyllid ysgogi tuag at ganolfannau o'r fath;
 2. ymrwymiad i gynnal safle PA fel arweinydd yng nghyswllt cynnyrch ymchwil cyfrwng Cymraeg;
 3. y dulliau sydd wedi'u sefydlu i gefnogi ymchwilwyr unigol, yn hytrach na'r rhai sydd ar gael i gefnogi meysydd ymchwil ac ymchwil yn gyffredinol;
 4. y cymorth a fydd yn cael ei gynnig i fyfyrwyr ymchwil; ac
 5. arferion da sydd eisoes yn bod yn y Brifysgol, gan gynnwys y Caffi Ymchwil.

72. HYFFORDDIANT MILFEDDYGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (COU1617-071).

NODWYD

1. Ers rhai misoedd bu PA yn trafod â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (CMB) y posibiladau ar gyfer darparu hyfforddiant milfeddygol trwy fodel cydweithrediadol. Roedd y trafodaethau hyn wedi cynnwys cyfarfod cadarnhaol iawn yn Llundain ar 02 Mai 2017 rhwng Cadeirydd Cyngor PA, yr Is-Ganghellor, a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); a Chadeirydd Cyngor CMB a chynrychiolwyr eraill o blith staff uwch.
2. Byddai'r prosiect nawr yn cael ei symud ymlaen gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol), oherwydd natur gydweithrediadol y fenter

arfaethedig. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect, yn cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol), Cyfarwyddwr IBERS, Dr Mike Rose, a Chyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion, er mwyn paratoi cynllun busnes a fyddai, ar ôl ei gymeradwyo, yn ein rhoi mewn sefyllfa i lofnodi Memorandwm o Gytundeb. Byddai trafodaethau â'r CMB ynghylch y cynllun busnes yn dechrau ar 30 Mehefin 2017.

3. Mae'r ddau sefydliad yn awyddus i wneud cyhoeddiad yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ynglŷn â'r cynnydd da sy'n cael ei wneud. Gallai hyn gynnwys cyhoeddiad ynglŷn â myfyrwyr CMB yn dod i Aberystwyth am eu cylchroadau clinigol o fis Medi 2017 ymlaen er mwyn iddynt gael profiad o weithio gydag anifeiliaid mwy o faint, gan na fyddai angen cael cymeradwyaeth academaidd ar ran PA ar gyfer trefniant o'r fath.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo mewn egwyddor y cynigion i sefydlu Memorandwm o Gytundeb gyda'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, a dechrau ar y prosesau cymeradwyo academaidd angenrheidiol (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol)).

73. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-072).

NODWYD

1. Roed yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: ceisiadau gan israddedigion am fynediad yn 2017; ansawdd y dysgu, bodlonrwydd myfyrwyr a dangosyddion cyflogadwyedd; canlyniadau tabl cynghrair y Complete University Guide 2018; a ffactorau allanol, yn cynnwys Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, a chais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19.
2. Roedd data Canlyniadau Addysgol Hydredol ynglŷn â chanlyniadau graddedigion wedi'u cyhoeddi fore'r cyfarfod. Byddai'r Adran Gynllunio nawr yn dadansoddi'r canlyniadau a chyflwyno adroddiad i Weithrediaeth y Brifysgol.
3. Nid oedd canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu cyntaf wedi'u cyhoeddi wrth aros am ganlyniad Etholiad Cyffredinol San Steffan ar 08 Mehefin 2017. Disgwylid bellach y byddai'r canlyniadau ar gael yn fuan, a byddent yn dylanwadu ar benderfyniad PA ynglŷn â chymryd rhan yng Nghyfnod Tri'r Fframwaith.
4. Trafododd yr aelodau'r gynrychiolaeth o'r cenhedloedd datganoledig ar y corff ambarél newydd, Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), a fydd yn goruchwyllo dosbarthiad cyllid ymchwil. Dywedodd yr Is-Ganghellor ei bod yn bwriadu gwahodd yr Athro Syr Mark Walport, Prif Weithredwr UKRI, i Aberystwyth yn y dyfodol agos.

74. SICRHAU ANSAWDD: DATGANIAD BLYNYDDOL I'R CYNGOR

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-073).

NODWYD

1. Mae'r fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd i Gymru yn cynnwys mwy o bwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethol wrth ddarparu sicrwydd safonau ac ansawdd. Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r drefn a gynigir ar gyfer paratoi'r Datganiad o Sicrwydd Ansawdd bob hydref, i'w ystyried gan y Bwrdd Academaidd, y Senedd, ac yn y pen draw, gan y Cyngor.
2. Pwysleisiodd yr aelodau pa mor bwysig yr oedd hi i aelodau'r Cyngor ymgyswddo'n llwyr â'r gofynion newydd hyn, a gofynnwyd pa hyfforddiant a ellid ei ddarparu i aelodau annibynnol yn y cyswllt hwn. Gofynnwyd hefyd faint o aelodau annibynnol ar y Cyngor sydd â phrofiad uniongyrchol a diweddar o Addysg Uwch.

PENDERFYNWYD

3. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r drefn a gynigiwyd ar gyfer datblygu'r Datganiad o Sicrwydd Ansawdd blynyddol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
4. Argymhell y dylai'r Cyngor ystyried y dull gorau i'r aelodau gyflwyno'r her a'r archwiliad angenrheidiol wrth adolygu'r Datganiad Sicrwydd Ansawdd a gynigir bob blwyddyn (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

75. ADDYSGU I UWCHRADEDIGION YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr yr Athrofa Datblygu Proffesiynol (ADP) (SEN1617-074).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am sefyllfa gyfredol y rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth, a ddechreuwyd yn 2016. Bydd 12 unigolyn yn cwblhau'r rhaglen ym mis Gorffennaf 2017.
2. Er y disgwylir iddynt ymgymryd ag 20 awr o oriau cyswllt addysgu yn ystod y rhaglen, mae hyn weithiau'n anodd ei gyflawni ar lefel adrannol oherwydd yr angen i ddosbarthu'r gwaith addysgu rhwng yr holl fyfyrwyr uwchraddedig.

PENDERFYNWYD

3. Y dylid adolygu strwythur rhaglen AUPA, gyda golwg naill ai ar lacio disgwyliadau ynglŷn ag oriau cyswllt addysgu lle nad oes modd eu cyflawni, neu ganiatáu i'r myfyrwyr gyfnod hirach i gwblhau'r 20 awr angenrheidiol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol).

76. YR AWDURDOD CYSTADLEUAETH A MARCHNADOEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-075).

NODWYD

1. Ar 15 Mehefin 2016, cymeradwyodd y Senedd argymhelliad y Bwrdd Academaidd y dylid dileu'r arfer o hysbysebu cynlluniau gradd 'yn amodol ar eu cymeradwyo'. Ond cafodd y mater ei ystyried ymhellach gan y Bwrdd Academaidd ar 24 Mai yng nghyd-destun cynlluniau gradd cyfredol PA sy'n cael eu darparu eisoes gan bartneriaid. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai'r partneriaid yn cael hysbysebu'r rhaglenni hyn a ddarperir ganddynt mewn partneriaeth â PA, tan i'r drefn gymeradwyo gael ei chwblhau.
2. Ystyriodd yr aelodau nifer o bosibiliadau. Er y tybiwyd nad oedd risg sylweddol ynghlwm â chael partneriaid a gymeradwywyd eisoes yn darparu rhaglenni a gymeradwywyd eisoes, cydnabuwyd y gallai'r adnoddau ychwanegol angenrheidiol i ddarparu'r rhaglen dan sylw danseilio'r achos busnes.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo eithriad i'r cyfyngiad ar hysbysebu 'yn amodol ar eu cymeradwyo' yn achos cyrsiau PA i'w darparu gan bartneriaid cyfredol, yn ogystal â chysiau newydd PA i'w darparu yn y Brifysgol ei hun lle mae cyfran sylweddol o'r cynllun eisoes yn bodoli (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).
4. Y dylid creu siart llif i nodi unrhyw benderfyniadau y byddai eu hangen yn rhan o'r drefn gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd, neu gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd rhwng cyfarfodydd (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).
5. Adolygu'r prosesau a'r amserlenni nodweddiadol ar gyfer cymeradwyo achos academaidd ac achos busnes y ddarpariaeth gydweithrediadol (**GWEITHREDU**: Pennaeth y Ddarpariaeth Gydweithrediadol).

77. RHEOLAU A RHEOLIADAU

1. Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr; a Rheoliadau Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-076).

NODWYD

1. Cafodd pryderon eu codi yn y Bwrdd Academaidd ar 24 Mai 2017 ynglŷn â chynnydd mewn defnydd twyllodrus o'r systemau monitro presenoldeb. Roedd aelodau'r Bwrdd Academaidd felly wedi argymhell y dylid cynnwys cyfeiriad pendant at hyn yn Rheolau a Rheoliadau'r Myfyrwyr a'r Rheoliadau Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd am 2017-18.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo cynnwys cymal penodol am y defnydd twyllodrus o'r systemau monitro presenoldeb yn Rheolau a Rheoliadau'r Myfyrwyr a'r Rheoliadau Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd am 2017-18 (**GWEITHREDU**: SAACH).
2. Rheolau Sefydlog Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-077).

NODWYD

1. Ar 24 Mai 2017, nododd aelodau'r Bwrdd Academaidd bod Rheolau Sefydlog 1 a 2 wedi'u hymgorffori yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ar ddechrau blwyddyn academaidd 2016-17. Roedd aelodau'r Bwrdd Academaidd wedi argymhell felly y dylid tynnu Rheolau Sefydlog 1 a 2 allan o ddechrau sesiwn 2017-18.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo tynnu Rheolau Sefydlog 1 a 2 allan o ddechrau blwyddyn academaidd 2017-18 ar ôl i'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion wneud gwiriadau terfynol i sicrhau bod y Rheolau Sefydlog hyn wedi'u dileu o gyhoeddiadau eraill (**GWEITHREDU: SAACH**).
3. Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-078).

NODWYD

1. Roedd yr Arolygwr Arholiadau wedi tynnu sylw'r Bwrdd Academaidd at enghreifftiau pan wrthododd myfyrwyr â gorffen ysgrifennu pan ofynnwyd iddynt wneud hynny ar ddiwedd arholiad. Ar 24 Mai 2017, argymhellodd aelodau'r Bwrdd Academaidd y dylid felly ddiwygio'r Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol i gynnwys y diffiniad bod ymddygiad annerbyniol yn cynnwys "peidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau ysgrifenedig i ymgeiswyr mewn arholiadau ffurfiol, a chyfarwyddiadau llafar gan oruchwylwyr yr arholiadau".

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r ychwanegiad a gynigiwyd i'r Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol (**GWEITHREDU: SAACH**).
3. Adolygu'r cyfarwyddiadau llafar a roddir i fyfyrwyr ar ddechrau arholiad (**GWEITHREDU: SAACH**).
4. Trosoglwyddo Marciau o Sefydliadau eraill

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-079).

NODWYD

1. Ar 22 Mawrth 2017, roedd y Senedd wedi ystyried a chymeradwyo argymhelliad y Bwrdd Academaidd na ddylid trosglwyddo marciau o gynlluniau cyfnewid o hyn ymlaen. Cafodd hyn ei ystyried ymhellach gan y Bwrdd Academaidd ar 24 Mai 2017, lle dywedwyd y dylai'r drefn o beidio â throsglwyddo marciau gael ei ymestyn i unrhyw farciau o drosglwyddir o sefydliadau eraill. Yr unig eithriadau a ganiateir fyddai trefniadau

cydweithrediadol ffurfiol lle ceir darlun clir o'r raddfa marcio, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r cynnig diwygiedig y dylai'r Brifysgol roi'r gorau i drosglwyddo marciau o sefydliadau eraill, o fis Medi 2018 (**GWEITHREDU: SAACH**).
5. Cynlluniau gradd sy'n cynnwys Blwyddyn Rhyng-gwrs

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-080).

NODWYD

1. Ar 24 Mai 2017, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried cyfarwyddiadau y cynigir eu cynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yng nghyswllt cynlluniau gradd sy'n cynnwys Blwyddyn o Ryng-gwrs. Gallai cynlluniau o'r fath naill ai fod yn 'flwyddyn integredig mewn diwydiant' neu 'flwyddyn integredig yn astudio dramor'.
2. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd aelodau'r Bwrdd Academaidd wedi cefnogi cynigion y dylai myfyrwyr sy'n methu symud ymlaen i'r flwyddyn olaf ar ddiwedd y flwyddyn ryng-gwrs drosglwyddo i gynllun gradd cysylltiedig nad oedd yn cynnwys y flwyddyn integredig mewn diwydiant neu'r flwyddyn yn astudio dramor.
3. Cynigiwyd hefyd y dylai'r flwyddyn yn astudio dramor gael ei thrin ar sail 'pasio/methu' ac i gyfri'r 120 credyd heb nodi marc, ar ôl cael cadarnhad bod y brifysgol bartner yn fodlon â'r ffordd y cawsant eu cyflawni. ?????? Eglurwyd y byddai'r trawsgrifiad a ddarperir gan y sefydliad partner yn nodi'r union farciau a enillwyd pe byddai'r myfyriwr eu hangen yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo cynnwys y cyfarwyddyd arfaethedig ar gyfer Cynlluniau gradd sy'n cynnwys Blwyddyn Ryng-gwrs yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd o fis Medi 2019 (**GWEITHREDU: SAACH**).
6. Rheoliadau ar gyfer Cynlluniau Gradd Cychwynnol Modiwlwr 2017–18

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-081).

NODWYD

1. Yn dilyn y penderfyniad yn gynharach i ddileu'r drefn 'Llechen Lân' i fyfyrwyr newydd o fis Medi 2016, roedd diwygiadau'n cael eu cynnig i roi i fyfyrwyr Rhan Dau gyfanswm o dri chynnyg i basio modiwl, yn lle'r ddau gynnig sydd ganddynt ar hyn o bryd. Ar 24 Mai 2017, argymhellodd y Bwrdd Academaidd y dylai'r diwygiadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

2. Nid oedd cynigion wedi eu datblygu hyd yn hyn i ddweud a ddylai cyfle ailsefyll gael ei ganiatáu ar lefel rhaglenni gradd uwchraddedig trwy gwrs. Cafodd hyn ei drafod gan aelodau'r Senedd, gan gynnwys y goblygiadau i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau Meistr Integredig.
3. Roedd y Bwrdd Academaidd hefyd wedi ystyried a chefnogi argymhelliad o'r Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd yn dweud y dylid dileu pwynt 13 o'r Rheolau Graddau Cychwynol Modiwlwr cyfredol, sy'n cyfeirio at ragofynion hanfodol. Cadarnhaodd yr Athrofeydd mai dim ond yn Y Gyfraith yr oedd cynlluniau gradd a chanddynt ragofynion hanfodol i'w pasio cyn gallu symud ymlaen.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau ar gyfer Cynlluniau Gradd Cychwynol Modiwlwr 2017–18 (**GWEITHREDU: SAACH**).
 5. Gwahodd y Bwrdd Academaidd i ystyried ymhellach a ddylid darparu cyfleoedd ailsefyll ychwanegol ar lefel cynlluniau uwchraddedig trwy gwrs i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau Meistr Integredig (**GWEITHREDU: SAACH**).
7. Confensiynau Arholiadau 2017–18

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-082).

NODWYD

1. Roedd oblygiadau gan y diwygiadau arfaethedig yn ymwneud â chyfleoedd ailsefyll i Gonfensiynau Arholiadau 2017-18 hefyd.
2. Roedd y Confensiynau Arholiad hefyd yn cynnwys adran ar 'Absenoldeb o Aseidiadau' a oedd yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn gweithdrefn gyfredol y Brifysgol ynghylch Amgylchiadau Arbennig. Ar 24 Mai 2017, cytunodd y Bwrdd Academaidd i argymhell i'r Senedd y dylai'r rhain gael eu dileu.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i Gonfensiynau'r Arholiadau 2017-18 (**GWEITHREDU: SAACH**).
8. Rheoliadau TAR ac Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-083).

NODWYD

1. Roedd yr Ysgol Addysg wedi cyflwyno cynnig ar gyfer darpariaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol yn rhan o'r cytundeb trwyddedu gyda Choleg Cambria. Cafodd rheoliadau drafft eu paratoi a'u hystyried gan y Bwrdd Academaidd ar 24 Mai 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Senedd eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD

2. I gymeradwyo'r rheoliadau arfaethedig (**GWEITHREDU: SAACH**).

9. Graddau Cyffredin

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-084).

NODWYD

1. Er bod y Brifysgol yn y gorffennol wedi cynnig Graddau Cyffredin, yr Adran Fathemateg bellach yw'r unig adran sy'n cynnig y cymhwyster hwn. Cafwyd nifer o drafodaethau dros y blynyddoedd ynglŷn â chadw Gradd Gyffredin ai peidio.
2. Cafodd y mater ei ystyried yn fanwl gan y Bwrdd Academaidd ar 24 Mai 2017, lle cynigiodd yr aelodau ddau ddewis i'r Senedd eu hystyried. Cafodd y rhain eu hystyried ymhellach gan y Senedd yn ystod y cyfarfod presennol, a bu'r aelodau hefyd yn trafod y goblygiadau posibl i fetric Anrhydedd Da y Brifysgol.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo mewn egwyddor y cynigion i ddiwygio'r rheoliadau cyfredol i ddileu'r Radd Gyffredin i fyfyrwyr newydd o fis Medi 2018 ymlaen, i'w disodli gan ddyfarniad 300 credyd gadael/at raid o Radd Gyffredin i'r myfyrwyr hynny sy'n gymwys am ddyfarniad o'r fath (**GWEITHREDU: SAACH**).
4. Y byddai goblygiadau disodli'r Radd Gyffredin gyfredol â dyfarniad 300 credyd gadael/at raid o Radd Gyffredin yn cael eu hystyried ymhellach gan y Bwrdd Academaidd, a byddai adroddiad yn cael ei baratoi i gyfarfod nesaf y Senedd (**GWEITHREDU: SAACH**).

10. Terfynau Amser Ymchwil Uwchraddedig

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-085).

NODWYD

1. Er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae myfyrwyr ymchwil yn gallu ymestyn ymgeisyddiaethau am gyfnodau amhenodol trwy dynnu'n ôl am gyfnodau amhenodol, cynigiwyd y dylid gosod uchafswm cyfnod ar gyfer cwblhau gradd ymchwil. Cafodd y mater ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd ar 24 Mai 2017, lle cynigiodd yr aelodau derfynau amser ar gyfer pob dull astudio a gradd uwchraddedig.

PENDERFYNWYD

2. I gymeradwyo'r terfynau amser arfaethedig, ar y ddealltwriaeth mae'r rhain oedd yr uchafswm ac nid y cyfnod nodweddiadol (**GWEITHREDU: SAACH**).

78. MATERION LLYWODRAETHOL

1. Maint a Chyfansoddiad y Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-086).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2017, roedd y Pwyllgor Siarter wedi ailystyried ei drafodaethau blaenorol ar faint a ffurf y Cyngor yn y dyfodol. Yn y cyfarfod hwnnw, daeth yr aelodau i ddealltwriaeth unfrydol ac roedd yn awr yn cynnig Cyngor o 18 aelod.
2. Byddai'r cynnig yn golygu lleihau nifer yr aelodau sy'n cynrychioli'r Senedd o dri i ddau. Byddai hyn yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan y Senedd ar 22 Mawrth 2017 yn nodi y byddai'n barod i ystyried lleihad cymesurol yn nifer ei aelodau ar y Cyngor yn unol â'r lleihad cyffredinol yn nifer aelodau'r corff llywodraethu.
3. Trafododd aelodau'r Senedd y cynigion, gan gynnwys yr oblygiadau posibl i gydbwysedd y Cyngor o ran y rhywiau, iaith, a sgiliau cyffredinol o ganlyniad i dorri nifer aelodau'r corff llywodraethu. Cydnabuwyd bod agweddau o'r fath yn cael eu hadolygu'n gyson gan y Pwyllgor Enwebiadau wrth chwilio am unigolion i lenwi'r lleoedd gwag i aelodau a benodir ar y Cyngor.

PENDERFYNWYD

4. Cadarnhau'r diwygiadau arfaethedig i faint a chyfansoddiad y Cyngor (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Ordinadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-087).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2017, roedd y Pwyllgor Siarter wedi ystyried diwygiadau i Ordinadau'r Brifysgol yn dilyn arolwg a wnaed o'r darpariaethau cyfredol gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Roedd nifer o ddiwygiadau'n cael eu cynnig, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roeddent yn cynnwys newidiadau i gyfansoddiad y Senedd ei hun, a gynigiwyd gan y corff llywodraethu academaidd yn ei gyfarfod 23 Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD

2. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Ordinadau (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Rheolau Sefydlog

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-088).

NODWYD

1. Yn rhan o'r arolwg diweddaraf o'u cylchoedd gorchwyl, roedd y Pwyllgor Siarter a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch wedi cynnig diwygiadau i'w cylchoedd gorchwyl. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi eu nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

2. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r cylchoedd gorchwyl (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

79. TREFN APELIADAU ACADEMAIDD ISRADDEDIG AC UWCHRADEDIG A DDYSGIR 2017-18

DERBYNIWYD

Trefn ddiwygiedig ar gyfer Apeliadau Academaidd Israddedig ac Uwchraddedig a Ddysgir 2017-18 (SEN1617-089).

NODWYD

Yn ei gyfarfod ar 24 Mai 2017, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried a chymeradwyo diwygiadau i Drefn Apeliadau Academaidd Israddedig ac Uwchraddedig a Ddysgir 2017-18.

80. ADRODDIAD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd Cangen PA y CCC (SEN1617-090)

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yng nghangen PA o'r CCC ers y cyfarfod diwethaf.

81. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHGAREDD CYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (SEN1617-091).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn nodi'r gweithgaredd cydweithrediadol y bu PA yn rhan ohono yn y flwyddyn academaidd 2017-18.

82. PENODIADAU I'R SENEDD, Y CYNGOR A'I IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-092).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ganlyniadau'r prosesau i ethol: aelodau o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Adran Ffiseg i'r Senedd; aelodau o'r Senedd i'r Cyngor; ac aelodau o'r Senedd ar is-bwyllgorau.

83. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2017-18

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-093).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn nodi dyddiadau cyfarfodydd y Senedd y cytunwyd arnynt ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017-18.

84. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-094).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodedb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

85. GRANTIAU YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-095).

NODWYD

Dyfarwyd nifer o grantiau ymchwil i aelodau staff PA ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

86. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (SEN1617-096):

1. Y Bwrdd Academiaidd (24 Mai 2017);
2. Y Cyngor (17 Chwefror, 07 Ebrill 2017 a 26 Ebrill 2017);
3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (24 Mawrth 2017);
4. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (10 Mawrth 2017 a 26 Mai 2017);
5. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (17 Chwefror 2017);
6. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (10 Mawrth 2017);
7. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (29 Mawrth 2017); a'r
8. Pwyllgor Siarter (23 Mai 2017).

NODWYD

9. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau eraill.

87. UNRHYW FATER ARALL

1. Enwebiad am Ddyfarniad er Anrhydedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-103).

NODWYD

1. Rhwng 05 a 07 Mehefin 2017, gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiad munud olaf a dderbyniwyd am Gymrodoriaeth er Anrhydedd. Roedd manylion pellach am yr unigolyn dan sylw wedi'u nodi yn yr adroddiad.
2. Argymhellodd aelodau'r Pwyllgor Graddau er Anrhydedd i'r Senedd a'r Cyngor y dylid cyflwyno Cymrodoriaeth er Anrhydedd i'r unigolyn dan sylw.

PENDERFYNWYD

3. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiad am Gymrodoriaeth er Anrhydedd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Ffarwelio

Roedd y canlynol yn bresennol yn eu cyfarfod olaf o'r Pwyllgor. Diolchwyd i bob un am eu cyfraniadau yn ystod eu tymhorau:

1. Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA;
2. Yr Athro Andrew Evans, cynrychiolydd yr Adran Ffiseg ar y Senedd;
3. Ms Lauren Marks, Llywydd UMAber; a
4. Mr Ryan Myles-Roberts, Swyddog Addysg UMAber.